

**Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn**  
**Answers to Questions not reached in Plenary**  
**12/12/2006**

[R] *yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.*

[R] signifies that the Member has declared an interest.

[W] *yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.*

[W] signifies that the question was tabled in Welsh.

**Cwestiynau i'r Prif Weinidog**  
**Questions to the First Minister**

**Hyrwyddo Effeithlonrwydd Ynni**  
**Promote Energy Efficiency**

**Q11 Mick Bates:** What is the Welsh Assembly Government doing to promote energy efficiency? OAQ2166(FM)

**C11 Mick Bates:** Beth mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud i hyrwyddo effeithlonrwydd ynni? OAQ2166(FM)

**The First Minister (Rhodri Morgan):** The Assembly Government sponsors Carbon Trust Wales, which encourages business and public sectors to save energy, thereby reducing costs and emissions. We work closely with the Energy Saving Trust to support the domestic sector. More than £54 million has been made available through the home energy efficiency scheme, supporting more than 64,000 homes.

**Y Prif Weinidog (Rhodri Morgan):** Mae Llywodraeth y Cynulliad yn noddi Ymddiriedolaeth Garbon Cymru, sy'n annog sectorau busnes a sectorau cyhoeddus i arbed ynni a, thrwy hynny, leihau costau a gollyngiadau. Yr ydym yn gweithio'n agos â'r Ymddiriedolaeth Arbed Ynni i gefnogi'r sector domestig. Yr oedd mwy na £54 miliwn ar gael drwy'r cynllun effeithlonrwydd ynni cartref i gefnogi mwy na 64,000 o gartrefi.

**Gwella Gwasanaethau Cyhoeddus**  
**Improving Public Services**

**Q12 Elin Jones:** What additional funding does the Welsh Assembly Government plan to make available to improve public services in Ceredigion? OAQ2156(FM)

**C12 Elin Jones:** Pa gyllid ychwanegol mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn bwriadu ei ddarparu i wella gwasanaethau cyhoeddus yng Ngheredigion? OAQ2156(FM)

**The First Minister:** Improving public services in Ceredigion, as elsewhere in Wales, depends in part on the Assembly agreeing the final budget tomorrow.

**Y Prif Weinidog:** Mae gwella gwasanaethau cyhoeddus yng Ngheredigion, fel ym mhob man arall yng Nghymru, yn dibynnu'n rhannol ar i'r Cynulliad gytuno ar y gyllideb derfynol yfory.

**Gwella Cludiant Cyhoeddus**  
**Improving Public Services**

**Q13 Nick Bourne:** Will the First Minister make a statement on the Welsh Assembly Government's policies for improving public transport in Wales? OAQ2146(FM)

**C13 Nick Bourne:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am bolisiau Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer gwella cludiant cyhoeddus yng Nghymru? OAQ2146(FM)

**The First Minister:** New powers in the Transport (Wales) Act 2006 and the Railways Act 2005, together with our draft Wales transport strategy, provide a coherent and comprehensive framework to successfully implement our integrated transport agenda. Regional transport plans will then set the priorities that will deliver our strategic outcomes.

**Y Prif Weinidog:** Mae pwerau newydd yn Neddf Trafnidiaeth (Cymru) 2006 a Deddf Rheilffyrdd 2005, ynghyd â'n strategaeth drafndiaeth ddrafft i Gymru, yn darparu fframwaith cydlynol a chynhwysfawr i weithredu ein hagenda trafndiaeth integredig yn llwyddiannus. Bydd cynlluniau trafndiaeth rhanbarthol wedyn yn gosod y blaenoriaethau a fydd yn cyflawni ein canlyniadau strategol.

### **Prydau Ysgol School Meals**

**Q14 Kirsty Williams:** What is the Welsh Assembly Government doing to improve the nutritional content of school meals? OAQ2162(FM)

**C14 Kirsty Williams:** Beth mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud i wella cynnwys maethlon prydau ysgol? OAQ2162(FM)

**The First Minister:** On 29 November, the Minister for Education, Lifelong Learning and Skills announced a £4.3 million package to support schools and local authorities in driving forward improvements in food and nutrition in schools; this will provide the building blocks to take forward the 'Appetite for Life' action plan due next summer.

**Y Prif Weinidog:** Ar 29 Tachwedd, cyhoeddodd y Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau becyn gwerth £4.3 miliwn i gefnogi ysgolion ac awdurdodau lleol i hyrwyddo gwelliannau o ran bwyd a maeth mewn ysgolion; bydd hyn yn sail i hyrwyddo'r cynllun gweithredu 'Blas am Oes' sydd ar ddod yr haf nesaf.

### **Gwella Rhwydweithiau Rheilffyrdd Improving Rail Networks**

**Q15 Lisa Francis:** Will the First Minister make a statement on the Welsh Assembly Government's plans to improve rail networks in Mid and West Wales? OAQ2168(FM)

**C15 Lisa Francis:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gynlluniau Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer gwella rhwydweithiau rheilffyrdd yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru? OAQ2168(FM)

**The First Minister:** Andrew Davies's written Cabinet statement on 1 December announced progressing options to improve infrastructure and services on the Cambrian Coast line. The Heart of Wales line forum is to seek community rail designation, which will enable free concessionary train pass travel within a revised fares structure, aimed at increasing overall income.

**Y Prif Weinidog:** Yr oedd datganiad Cabinet ysgrifenedig Andrew Davies ar 1 Rhagfyr yn cyhoeddi dewisiadau i wella seilwaith a gwasanaethau ar linell y Cambrian Coast. Mae fforwm rheilffordd Calon Cymru am geisio cael dynodiad rheilffordd gymunedol a fydd yn caniatáu consesiynau teithio ar y trê'n am ddim o fewn strwythur costau teithio diwygiedig, wedi'i anelu at gynyddu'r incwm cyffredinol.